# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cofnodion (HSS(2)-08-05)

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 22 Mehefin 2005
Amser y cyfarfod: 9.00am tan 12.15pm
Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Brian Gibbons (Gweinidog) | Aberafan |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Rosemary Kennedy | Y Prif Swyddog Nyrsio |

| | |
|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Dr David Salter | Y Prif Swyddog Meddygol Dros dro |

## Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli (os yn briodol)** | **Eitem(au)** |
|---|---|---|
| Tina Donnelly | Cyfarwyddwr, Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru | Eitem 2 |
| Alison Kedward | Cadeirydd Ymgynghorwyr Nyrsio Cymru | Eitem 2 |
| Richard Jones | Dirprwy Gyfarwyddwr, Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru | Eitem 2 |
| Gaynor Jones | Bwrdd Cymru, Coleg Brenhinol y Nyrsys | Eitem 2 |
| Helen Rogers | Ysgrifennydd Bwrdd y DU ar gyfer Cymru, Coleg Brenhinol y Bydwragedd | Eitem 2 |
| Lisa Turnbull | Cynghorydd Polisi, Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru | Eitem 2 |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Virginia Hawkins | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Lynne Neagle. Yr oedd Denise Idris-Jones un dirprwyo ar ei rhan.

1.2 Datganodd Val Lloyd fuddiant fel aelod o Goleg Brenhinol y Nyrsys a'i bod wedi cofrestru ar hyn o bryd gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

1.3 Bydd cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Materion Nyrsio
## Papur: HSS(2)-08-05(p.1); HSS(2)-08-05(p.1a) a HSS(2)-08-05(p.1b)

2.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i’r dystiolaeth ysgrifenedig a'r dystiolaeth lafar a roddwyd gan Goleg Brenhinol y Nyrsys a Choleg Brenhinol y Bydwragedd.

### Camau i'w cymryd

- Byddai'r Pwyllgor yn paratoi adroddiad ar ei ganfyddiadau i'r Gweinidog.

## Eitem 3: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2005
## Papur: HSS(2)-08-05(p.2)

3.1 Yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2005, nododd y Pwyllgor y dylid craffu'n fanwl ar y Rheoliadau hyn. Fe'i hystyriwyd yn unol â'r protocol y cytunodd y Pwyllgor arno ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth. Codwyd pum pwynt i gael esboniad pellach arnynt. Ni chynigiwyd unrhyw ddiwygiadau.

3.2 Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

### Camau i'w cymryd

- Y Cadeirydd i anfon adroddiad y Pwyllgor at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

## Eitem 4: Adolygiad Polisi o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl - Safon 2: Cyfranogiad Defnyddwyr a Gofalwyr
## Papur: HSS(2)-08-05(p.3)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

## Eitem 5: Blaenraglenni Gwaith Pwyllgorau Eraill
## Papur: HSS(2)-08-05(p.4)

5.1 Cytunwyd y dylid neilltuo amser yn rhaglen yr hydref i drafod adroddiad y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio sef "Adolygiad o Orddyled yng Nghymru".

**Camau i'w cymryd**

- Y Clerc i neilltuo amser ar gyfer y drafodaeth.
- Gwahodd y Dirprwy Weinidog i fod yn bresennol yn ystod y drafodaeth.

## Eitem 6: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol
## Papurau: HSS(2)-07-05(min)

6.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mai 2005.